A huge part of the problem lies in the way the that formal target arrangements currently operate as this often takes precedence over clinical judgment as to when a patient needs to be seen. This is often down to the fact there is a target for when patients should be seen for their first outpatient appointment after being referred by their GP (known as the referral to treatment target, or RTT) but there is no equivalent target for when they should be seen for a follow-up appointment. This sometimes creates a perverse incentive for health boards to prioritise first appointments over follow-up appointments to ensure they meet their targets, which might be achieved only at the expense of delaying follow-up appointments.

We would recommend that how this system works must be reviewed. We need to move away from the problem that currently exists where the need to meet Welsh Government-set targets can over-ride informed clinical judgement on when patients should be seen.

We further note that when follow-up appointments are delayed in this way by health boards, the consultant overseeing the care of the patient in question is often not informed that this has happened and may only become aware the appointment was delayed when they next see the patient in question. As highlighted in the Auditor General's report, in worst-case scenarios a patient's health might have deteriorated irreversibly during the time their follow-up appointment was delayed – something that may have been avoided had the appointment taken place within the time-frame originally specified by the clinician who requested it.

The report notes the risk that this can pose to ophthalmology patients who could potentially even lose their sight as a result of a delayed follow-up appointment, but as the report acknowledges there can be similar risks in relation to other specialties. For instance, one of our members who is an ear, nose and throat (ENT) surgeon has pointed out that for his patients the potential exists for delayed follow-up appointments to lead to a permanent loss of hearing, an irreversible loss of balance or the development of facial palsy.

One concern our members highlight is a lack of consistent practice in dealing with follow-up outpatient appointments, which can vary between health boards, between specialties and between individual clinicians. Thus, whilst there are plenty of examples of good practice being employed, they are not being done so consistently. We are aware for instance that some consultants make a point of regularly assessing their own lists and initiate action themselves to ensure their follow-up appointments are not being delayed by addressing any backlog they might have. However, this is not something that happens routinely across the board.

Whilst some consultants regularly obtain their own figures for how many 'follow-up not booked' (FUNB) appointments they have on their list as a matter of routine, this is not universal. We would therefore

suggest that consideration is given to putting in place a mandatory requirement for health boards and trusts to supply every consultant who manages a list with details of how many FUNB appointments they have on either a monthly or quarterly basis.

One of our consultant members has highlighted the challenges he has had in ensuring he has no outpatient appointments classed as FUNB, as well as maintaining such a position once it has been achieved. After taking up his post, it took him four years to eliminate FUNB appointments from his list. However, events outside of his control have meant that he has not always been able to fully maintain such a position on a continuous basis. On one occasion, for instance, a software change introduced by his health board led to 150 patients being lost from his list. When this was discovered at a later date, and they were then added back to his list, he found himself with a backlog of 150 FUNB appointments which it took him 18 months to eliminate once again. On another occasion, he inherited 40 FUNB appointments from a colleague who had retired.

We would suggest that there is a clear need to ensure best practice is shared and that consultants are facilitated in adopting changes that would ameliorate this adverse position. The consultant referred to in the previous paragraph adopted a system for managing appointments that he had previously observed another consultant using, but we need to consider how such best practice sharing could be better promoted and adopted. One suggestion would be to hold a forum, or one-day conference, specifically about strategies for dealing with follow-up outpatient appointments – something that could potentially be undertaken on an annual basis.

Another suggestion that we support within the Auditor General's report is to review the need for so many patients to receive a follow-up outpatient appointment automatically after surgery. In the experience of our members, this is also an area in which there appears to be quite inconsistent practice between different hospitals and health boards.

A consultant dermatologist has pointed out that in her department patients are only seen after surgery if it is deemed that they require further treatment or assessment, but in a neighbouring hospital the practice there is to give every patient who has received a biopsy a follow-up appointment even when a carcinoma has been fully excised and needs no further treatment.

We note the necessity to ensure that outcomes are monitored and that feedback about quality and safety are essential, but there are many ways to collate such data using IT, telephone, or other means. One consultant gynaecologist reported that, due to cuts in staffing, their successful efficient nurse-led 'gynae reunion' session was stopped so patients are now followed up instead in consultant clinics. Health boards must be tasked with moving the service forwards – all too often our members report regression due to cost or staff constraints.

An ENT surgeon has noted that is now standard accepted practice not to see all patients automatically following surgery for tonsil removal, and that similar practice is now also being adopted in relation to patients who have had simple nose surgeries, e.g. septoplasty and simple functional endoscopic sinus surgery (FESS). Patients can however phone to request an appointment up to eight weeks following their surgery should a problem arise.

This surgeon has also pointed out that a consultant should be able to judge to a high level of accuracy (i.e. around 96%) whether or not a patient will need to be seen again following surgery. Through the use of such clinical judgment to determine whether or not patients will need to be seen in such circumstances, capacity can therefore be freed up to enable other patients to be seen in a more timely manner.

The key point here is that greater use of clinical judgement can help to minimise the risk that might exist to patients, as well as ensuring fewer patients who need a follow-up appointment have that appointment delayed. This can help reduce such delays without necessarily needing greater financial resource.

We note the emphasis that is placed on improving quality through better outcomes – be they clinical or patient-reported – so it also remains vital that follow-up data are collected, collated and utilised effectively in driving up standards and quality.

A further concern raised by a consultant oral and maxillofacial surgeon is that when he is scheduling a review appointment for a patient, he will not normally have any available appointments that are less than four months into the future because his clinics prior to this time will already be fully booked. On occasions when he judges he needs to see a patient again more quickly, e.g because the patient needs a scan or other investigation for suspected cancer or other serious conditions, he therefore has no choice but to overbook an earlier clinic. This can put other patients at risk who are already booked to be seen in these clinics, but whose appointments may then have to be delayed.

Some of our GP members have expressed concern regarding the frustration that delayed follow-up appointments cause to their patients. This in turn has workload implications for GP practices, as patients often contact them when they have been left waiting and are lacking information about what is happening. Again, we would point to the impact of differential practice. Some hospital departments will advise a patient of an alternative date for their appointment at the same time as letting them know it has been delayed, but others just advise patients to wait until they hear from them again before they will be given an alternative date whilst some require such patients to ring in to book an alternative date for their appointment.

GP practices are often asked to assist patients who have difficulty rearranging outpatient appointments that they are unable to make. Patients often find that the contact numbers provided on the letters they have received are permanently engaged, meaning they struggle to inform a hospital department they can't attend on the date offered. This can mean they are then being classed as DNA (did not attend) rather than CNA (could not attend), and this can then lead them to be discharged from the waiting list.

We are also aware of patients who have received letters advising them that their outpatient appointment has been rescheduled for an earlier date than their original appointment, but the letters advising them of this fact have not reached them until after their new appointment date has already passed.

Another concern GPs have highlighted is that patients are often asked by hospital departments to confirm that they are consenting to their referral, even though they have already opted in to being referred at the GP appointment they attended when it was agreed the referral should be made. We are further aware of instances where patients who have been referred for an assessment are then asked to confirm they consent to a procedure being undertaken, even though it may not be known at that stage if a procedure is in fact needed. Such patients may understandably be reluctant to do so until they have actually had their secondary care assessment. It is hard to see what the benefit of such confirmation requirements are, other than to remove patients from waiting lists that GPs have determined should be seen. This may help reduce waiting lists, but only in a manner which may be detrimental to the health of patients.

One suggestion put forward by a GP member is that there could be a dedicated person (or team) within each health board with responsibility for managing the situation for each patient. This person could act as an 'ongoing hospital care navigator', be a point of contact for patients and have responsibility for liaising with relevant specialty departments within the hospital. By acting as a channel for such communications, this could reduce the current multiplicity of calls to secretaries within hospital departments and contacts at GP surgeries. They could also have a role in requesting that follow-up appointments be expedited and chasing when responses are not being received, although clearly there would be a need to also ensure they were undertaking their roles with appropriate clinical input.

Another of our GP members has advised us of his experience as a member of the Dyfed Powys Local Medical Committee (LMC) in working with Hywel Dda University Health Board to address problems there around delayed follow-up outpatient appointments. Three years ago, he approached the health board's deputy chief executive with a proposal that the health board could commission GPs to look at cases once

appointments had reached six months delay compared to when a patient was supposed to have been seen. The idea was for GPs to review such cases to determine if the patients in question still needed a follow-up appointment, or if they could instead be discharged from the list to free up capacity and reduce waits for others. A subsequent meeting was held which also involved the chair of the LMC to further develop the proposal, draw up a potential service level agreement and consider an appropriate fee for the work as it would not be covered by existing contractual arrangements. The discussions considered five different specialties which it was felt should initially be targeted, because this is where the LMC felt the most difference could be made.

A pilot was subsequently undertaken for urology patients. It led to 6% of cases being immediately referred back to the clinic as being in need of urgent review, 54% being identified as suitable to be discharged from the list, with the remaining 40% of patients being recommended to remain on the list for a follow-up appointment. It is greatly disturbing that more than one in 20 patients were judged to be in need of urgent review when on a waiting list.

Regrettably, although funding to take this work forward was written in to the health board's RTT plan for 2019-20, it was not subsequently approved by the health board's executive team. This is clearly a deeply disappointing outcome, particularly given the fact that it is possible significant sums for negligence may have to be paid out for patients who have suffered deterioration to their health as a result of delayed follow-up appointments. Whilst the health board should of course be concerned about this, we would note that such payments come from the Wales Risk Pool rather from the health board's own budget. This is something the Welsh Government should perhaps seek to address, as it would surely be more cost effective, and significantly better for patients, for funding to be allocated to such initiatives rather than see much greater sums paid out in negligence claims.

In summary

We would reiterate our view that efforts to tackle this problem must now be appropriately escalated and that the issue needs to be given significantly greater priority by health boards, including at board level. More consistent practice needs to be adopted across health boards and hospital departments, as well as by individual clinicians. Where required, appropriate resources should be allocated, and initiatives should be supported across health boards that can address the underlying issues. More also needs to be done to facilitate the sharing of best practice.

Part of the solution involves reviewing the need for some patients to remain on lists awaiting follow-up appointments and for a change in adopted practice so that certain categories of patients aren't routinely seen for follow-up appointments when there may not be a clinical need. In addition, there are undoubtedly ways in which the current system for managing such outpatient appointments can be reformed to ensure it is more appropriately based on ensuring patients are seem in accord with assessed clinical need at the time a clinician has judged they should be seen. Perverse incentives in the way Welsh Government targets are currently applied need to be addressed to ensure that adhering to such targets does not over-ride clinical judgement.

We can only hope that this second report from the Auditor General will lead to this issue now being treated with the seriousness it deserves at health board level. It is deeply regrettable that the problem has significantly worsened overall since concerns we contributed to raising led to the first report being undertaken in 2015-16. We would therefore suggest that National Assembly committees should play a role in monitoring progress. We cannot afford to wait until another report is produced by the Auditor General in a few years' time only to discover that the situation has worsened yet again to the detriment of patients.

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Papur Tystiolaeth cyn Sesiwn Graffu'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus – 20.05.2019

Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru ar gynllun tocynnau bws rhatach Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc - 'FyNgherdynTeithio'

Diben y papur hwn yw rhoi Tystiolaeth Ysgrifenedig i'r Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus ar Adroddiad ffeithiau'n unig Archwilydd Cyffredinol Cymru ar 'Gynllun tocynnau bws rhatach Llywodraeth Cymru ar gyfer pobl ifanc - FyNgherdynTeithio'.

Adran 1: Canfyddiadau allweddol

Adran 2: Datblygu a chyflwyno FyNgherdynTeithio

Adran 3: Gweithredu FyNgherdynTeithio rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2017

Adran 4: Gweithredu FyNgherdynTeithio ers mis Ebrill 2017

Adran 1: Canfyddiadau allweddol

Yn absenoldeb deddfwriaeth sy'n galluogi Llywodraeth Cymru i'w gwneud yn ofynnol i gwmnïau bysiau gymryd rhan, cafodd cynllun FyNgherdynTeithio ei gyflwyno fel trefniant gwirfoddol rhwng Llywodraeth Cymru a mwy na 80 o gwmnïau bysiau annibynnol, ac erys felly.

Mae Adroddiad ffeithiau'n unig Swyddfa Archwilio Cymru yn cydnabod bod swm y cyllid a ddyrannwyd i'r cynllun yn 2105-16 (£5m ar gyfer mis Medi 2015 hyd at fis Mawrth 2016) a 2016-17 (£9.75m ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn) wedi'i gyhoeddi fel rhan o gytundeb gwleidyddol rhwng Llafur Cymru a Democratiaid Rhyddfrydol Cymru ar gyfer cyllideb 2015-16.

Cafodd y swm ei gyhoeddi cyn i Lywodraeth Cymru drafod â chwmnïau bysiau am yr iawndal a fyddai'n daladwy iddynt am gludo pobl ifanc 16 i 18 oed am bris rhatach. Cynhaliwyd y trafodaethau hynny rhwng Llywodraeth Cymru a'r diwydiant bysiau, wedi'i gynrychioli gan y Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr (y Cydffederasiwn) mewn cyd-destun lle roedd y Cydffederasiwn yn mynnu bod y symiau llawn o gyllid a gyhoeddwyd eisoes yn cael eu talu iddynt er mwyn sicrhau bod y cwmnïau bysiau'n cymryd rhan.

Serch hyn, llwyddodd swyddogion i ddod i gytundeb ar gynllun a oedd yn gwireddu'r cyhoeddiad gwreiddiol, ac yn rhagori arno, heb fod angen mwy o gyllid na'r hyn a gyhoeddwyd eisoes. Roedd y gwelliannau hynny'n sicrhau disgownt o 33%, nid yn unig i bobl ifanc 16 ac 17 oed ar siwrneiau bws yn ôl ac ymlaen o hyfforddiant a chyflogaeth, ond i bob person ifanc 16, 17 ac 18 oed, ac ar gyfer siwrneiau o unrhyw fath.

Roedd y trafodaethau hyn hefyd yn sicrhau bod y cyllid a gyhoeddwyd eisoes yn cael ei ddefnyddio i dalu costau gweinyddol cysylltiedig Traveline Cymru (FyNgherdynTeithio), ac ar gyfer gwaith marchnata a hyrwyddo.

Mae Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi'n gywir ddigon bod llai o bobl ifanc na'r disgwyl wedi manteisio ar FyNgherdynTeithio i ddechrau. Ar y pryd, nid oedd unrhyw gynllun cyfatebol a thrwy gyflwyno cynnig newydd ac arloesol i annog mwy o bobl ifanc i deithio ar fysiau, roedd brasamcanion Llywodraeth Cymru yn eang iawn wrth reswm.

Gan fod y cynllun yn un gwirfoddol ac nad oedd ymrwymiad i'w ariannu y tu hwnt i 31 Mawrth 2017, roedd y gweithredwyr yn gyndyn i gael gwared ar eu cynlluniau tocynnau rhatach i bobl ifanc masnachol eu hunain, gan ofni y byddent yn colli cysylltiad â charfan allweddol o gwsmeriaid presennol a chwsmeriaid y dyfodol, o bosibl.

Roedd cadw cynlluniau'r gweithredwyr eu hunain yn golygu bod pobl ifanc yn gallu cael tocynnau rhatach ar gyfer siwrneiau ar wasanaethau'r gweithredwyr hynny, ac nad oedd unrhyw gymhelliant uniongyrchol iddynt gael cerdyn FyNgherdynTeithio - oni bai eu bod yn teithio'n rheolaidd ar fysiau mwy nag un gweithredwr. Mae'r Adroddiad yn cydnabod bod cynnydd sylweddol yn nifer cardiau FyNgherdynTeithio a gyflwynwyd pan oedd gweithredwr yn rhoi'r gorau i gynnig ei gynhyrchion ei hun i'r grŵp oedran hwn.

Yn ogystal â thrafodaethau Archwilydd Cyffredinol Cymru â Gwasanaeth Archwilio Mewnol Llywodraeth Cymru, gofynnodd Llywodraeth Cymru am i'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol adolygu trefniadau FyNgherdynTeithio ar gyfer 2017-18, ar ôl i'r cynllun beidio â bod yn gynllun peilot. Cwblhawyd adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ym mis Tachwedd 2018 i'w ddefnyddio gan Lywodraeth Cymru'n unig. Roedd yr adroddiad yn nodi'n glir y gallai gwersi gael eu dysgu, ac aeth Llywodraeth Cymru ati'n gyflym i roi nifer o gamau gweithredu ar waith - gan gynnwys ad-dalu'r cwmnïau bysiau ar sail y nifer wirioneddol o siwrneiau a deithiwyd. Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gydymffurfio ag adroddiad y Gwasanaeth Archwilio Mewnol ac yn monitro'r broses o roi'i argymhellion ar waith, ac mae swyddogion yn gweithio'n agos gyda Swyddfa Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol i nodi cyfleoedd pellach i wella'r gwaith o reoli'r cynllun, a'u rhoi ar waith.

Mae'r Cydffederasiwn wedi croesawu cyflwyno'r cynllun peilot 16 i 18, a'r ffaith iddo gael ei ehangu i gynnwys pobl ifanc 19 i 21 oed. Mae'r Cydffederasiwn yn cydnabod bod tocynnau bws rhatach i bobl ifanc yn gymhelliant gwych i gwsmeriaid ddewis teithio ar fws dros fynd yn y car, gyda'r holl fanteision o ran yr amgylchedd a theithio llesol yn ychwanegu mwy fyth o werth i'r cynllun gwych hwn i bobl ifanc yng Nghymru.

Adran 2: Datblygu a chyflwyno FyNgherdynTeithio

Mae Adroddiad Archwilydd Cyffredinol Cymru yn nodi bod Democratiaid Rhyddfrydol Cymru wedi cyhoeddi adroddiad “A concessionary fare Scheme for Young People in Wales” ym mis Mawrth 2014. Roedd yr adroddiad hwn yn argymell cynllun tocynnau teithio rhatach cenedlaethol i bobl ifanc yn seiliedig ar gyfradd tocynnau gostyngedig gyffredinol i bobl 16-18 oed a myfyrwyr er mwyn helpu i leihau costau trafnidiaeth gyhoeddus a gwella mynediad i gyfleoedd addysg, cyflogaeth a hyfforddiant. Roedd yr adroddiad yn amcangyfrif y byddai menter o'r fath yn costio rhwng £2.4m a £40.6m gan ddibynnu ar lefel y gostyngiad a gynigir a'r grwpiau oedran a fyddai'n cael eu cynnwys.

Cyhoeddodd y Gweinidog Cyllid a Busnes y Llywodraeth ar y pryd ym mis Medi 2014 ymrwymiad i gyflwyno cynllun tocynnau bws rhatach i bobl ifanc 16 ac 17 oed i deithio yn ôl ac ymlaen i'r gwaith neu hyfforddiant, a hynny erbyn mis Medi 2015. Swm y cyllid a gyhoeddwyd oedd £5m yn 2015-16 (mis Medi 2015 i fis Mawrth 2016) a £9.75m yn 2016-17 (ar gyfer y flwyddyn ariannol lawn).

Cyn y cyhoeddiad hwnnw, ym mis Mehefin 2014, roedd y Grŵp Cynghori ar Bolisi Bysiau wedi rhoi argymhellion i Weinidog yr Economi, Gwyddoniaeth a Thrafnidiaeth ar y pryd ar wasanaethau trafnidiaeth cynaliadwy yng Nghymru, gan gynnwys y dylai polisi tocynnau rhatach i bobl ifanc gan ei ddatblygu drwy ymchwil ac ymgynghori pellach.

Ym mis Medi 2015, cafodd yr ymrwymiadau a wnaed gan Weinidogion Cymru ym mis Medi 2014 eu bodloni'n llwyr, gan gynnwys llwyddo i gytuno ar welliannau a oedd yn cynnwys ymestyn y cynnig i bob person ifanc 16, 17 ac 18 oed, ac ar gyfer pob siwrnai ar fws, waeth at ba ddiben bynnag, ac ar gyfer gweinyddu a marchnata'r cynllun.

Yn sgil y trafodaethau hyn, bu modd i Lywodraeth Cymru ddefnyddio'r cyllid a gyhoeddwyd ar gyfer 2015-16 a 20-16-17 i weinyddu a marchnata'r cynllun. Yn y trafodaethau hynny, cadarnhaodd y Cydffederasiwn ei fod yn disgwyl i'r swm cyfan a gyhoeddwyd gael ei roi i'r diwydiant bysiau am gymryd rhan yn wirfoddol yn y cynllun peilot.

Er mwyn sicrhau bod cynllun a oedd yn cydymffurfio ar waith erbyn 1 Medi 2015, archwiliodd y swyddogion, ynghyd â swyddogion awdurdodau lleol a'r Cydffederasiwn Cludiant Teithwyr, amrywiaeth o ffyrdd o gyflawni ac ymestyn amcanion gwreiddiol y Gweinidogion. Roedd ymestyn y cyhoeddiad i gynnwys pob siwrnai a wneir gan bobl ifanc 16 i 18 oed yn goresgyn y trafferthion posibl i yrwyr bysiau wrth gadarnhau bod deiliaid y cerdyn yn teithio at ddibenion hyfforddiant neu waith mewn gwirionedd. Gallai ceisio gwneud hynny fod wedi arwain at anghydfodau ac oedi, gan amharu at fanteision y cynnig a phrofiadau teithwyr eraill i raddau.

Cynhaliwyd y trafodaethau hyn gyda'r diwydiant bysiau ar ddwy lefel - yn strategol rhwng rheolwyr gyfarwyddwr cwmnïau bysiau Cymru (a oedd hefyd yn cynrychioli'r Cydffederasiwn) ac aelodau o uwch wasanaeth sifil Llywodraeth Cymru, a grŵp technegol a oedd yn cynnwys staff gweithredol cwmnïau bysiau yng Nghymru, cynrychiolwyr Cymdeithas Swyddogion Cydlynu Cludiant Cymru (corff cynrychioli swyddogion cludiant arweiniol o bob awdurdod lleol yng Nghymru) ac aelodau o dîm Llywodraeth Cymru a gafodd y dasg o roi'r fenter ar waith.

Yn absenoldeb unrhyw gynlluniau presennol, bu'n rhaid i'r swyddogion, yn anochel, wneud tybiaethau penodol am y niferoedd posibl a fyddai'n manteisio ar y cynllun ac yn defnyddio FyNgherdynTeithio, yn seiliedig ar y cynllun tocynnau bws am ddim gorfodol. Er ein bod yn sylweddoli nad oedd y cynllun ieuenctid am ddim, ac yn rhoi gostyngiad o 33% ar docynnau teithio, yn hytrach na siwrneiau am ddim, rydym yn dal i fod yn fodlon bod y brasamcanion yn rhesymol ar yr adeg honno ac yn absenoldeb unrhyw gynllun tebyg mewn mannau eraill o'r DU. Dysgwyd o brofiad bod gan bobl ifanc lai o ddiddordeb mewn teithio rhatach ar fysiau nag y tybiwyd yn wreiddiol, a bod y nifer ohonynt a oedd yn teithio ar wasanaethau mwy nag un gweithredwr yn gymharol fach.

Fel y nodwyd eisoes, wrth drafod, roedd y Cydffederasiwn yn benderfynol o sicrhau bod y cronfeydd i gyd a gyhoeddwyd gan Weinidogion yn cael eu defnyddio i gefnogi'r rhwydwaith bysiau o dan yr hyn a oedd, ac sydd o hyd, yn drefniant gwirfoddol.

Adran 3: Gweithredu FyNgherdynTeithio rhwng mis Medi 2015 a mis Mawrth 2017

Ni fu unrhyw gyfaddawd yn argyhoeddiad cadarn y cwmnïau bysiau bod yn rhaid i'r rhwydwaith bysiau elwa ar ddyraniad cyfan y cyllid a gyhoeddwyd yn ystod cyfnod peilot y fenter.

Yn absenoldeb peiriannau tocynnau addas yn ystod y peilot, ni fu'n bosibl cofnodi pob siwrnai'n electronig, a thrwy hynny, gysylltu pob siwrnai â thaliad priodol. O dan yr amgylchiadau hyn, daeth trafodaethau â'r Cydffederasiwn i'r casgliad y dylai'r cyllid gael ei ddyrannu i bob gweithredwr yn unol â dau ffactor:

- yn gyntaf, nifer y teithiau bws am ddim; ac
- yn ail, y milltiroedd cofrestredig a weithredir gan bob cwmni bysiau.

Yn y ffordd hon, dyrannwyd cyfrannau o gyfanswm y cyllid a oedd ar gael ar gyfer iawndal i'r gweithredwyr yn gymesur â'r rhan roedd pob un yn ei chwarae yn rhwydwaith bysiau Cymru.

Am y rhesymau a ddisgrifir eisoes, parhaodd y gweithredwyr i gynnal eu cynlluniau tocynnau teithio rhatach eu hunain i bobl ifanc hefyd, gan leihau nifer y cardiau FyNgherdynTeithio a ddosbarthwyd a nifer y siwrneiau o dan y cynllun. Yn ogystal, gwrthododd y cwmnïau bysiau rannu manylion am nifer y bobl ifanc a gofrestrodd â'u cynlluniau hwy a'u defnyddio, gan nodi sensitifrwydd masnachol y data hynny fel y rheswm dros beidio â'u rhannu.

Mae Llywodraeth Cymru wedi cydnabod y dylai Gweinidogion fod wedi cael gwybod yn ffurfiol am y dull manwl ar gyfer talu'r cwmnïau bysiau yn ystod y cynllun peilot a ddatblygwyd ac a gytunwyd gyda'r Cydffederasiwn. Nid oedd unrhyw beth yng nghyhoeddiad gwreiddiol y Gweinidogion a oedd yn pennu sut yn union y byddai cyllid Llywodraeth Cymru yn cael ei ddyrannu, ac felly nid oedd defnyddio nifer milltiroedd a siwrneiau rhatach yn mynd yn groes i unrhyw beth roedd y

Gweinidogion wedi'i ddweud. Er nad oedd unrhyw beth am y trefniant hwn yn anghyson, byddai wedi bod yn arfer gwell i roi gwybod i'r Gweinidog am yr union ddull a ddefnyddiwyd ar gyfer dosbarthu'r cyllid.

Wrth i'r cynllun peilot dynnu at ei derfyn, dywedodd y Gweinidogion yn glir eu bod am iddo barhau i gynnig disgownt o draean pris tocynnau i bobl ifanc rhwng 16 a 18 oed ar gyfer pob siwrnai, nes y gallai cynllun newydd a gwell gael ei lunio. Yna, cafwyd ymgynghoriad manwl yn ystod 2017-18 yn ceisio barn ar yr hyn y gallai cynllun newydd ei gynnwys.

Er bod cyfanswm y cyllid a ddyrannwyd yn 2015-16 ac yn 2016-17 yn uwch o lawer nag yn 2017-18, mae'r diwydiant bysiau wedi nodi bod y lefel gyffredinol o gyllid a ddyrannwyd o dan gynllun peilot FyNgherdynTeithio wedi "helpu gweithredwyr i sefydlogi'r rhwydwaith bysiau, gan ei wneud yn fwy deniadol i deithwyr newydd a phresennol". Ychwanegodd y Cydffederasiwn nad oedd unrhyw sail i gredu bod cwmnïau bysiau wedi gwneud elw ychwanegol, na'u bod ar unrhyw gyfrif wedi mynd ag elw o Gymru a'i ddefnyddio i gystadlu'n annheg mewn mannau eraill yn Ewrop". Yn ystod 2016, aeth tri chwmni bysiau i ddwylo'r gweinyddwyr: un o'r ffactorau a oedd y tu ôl i gynllun pum pwynt Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a Thrafnidiaeth i gefnogi'r diwydiant bysiau yng Nghymru.

Dywedodd y Cydffederasiwn "Pe bai'r cynllun peilot wedi dangos bod lefel y cyllid a ad-dalwyd i gwmnïau bysiau'n ddigonol, ni fyddem wedi cael yr hawl i ofyn am fwy yn ôl-weithredol. Mae'n anorfod y bydd mentrau mawr fel FyNgherdynTeithio yn cynnwys elfen o risg ar y naill ochr a'r llall, o ystyried yr ansicrwydd amrywiol sydd ynghlwm wrthynt, a'r ffaith ei bod hi'n gwbl amhosibl diffinio'r "gwrthffeithiol" yn fanwl gywir".

Adran 4: Gweithredu FyNgherdynTeithio ers mis Ebrill 2017

Mae'r newid yn lefel y swm ar gyfer digolledu, marchnata a gweinyddu i £1m o 1 Ebrill 2017 ymlaen ar ôl y cyfnod peilot a thrafodaethau cysylltiedig Gweinidogion ynghylch y lefelau cyllido, yn adlewyrchu'r defnydd o'r data a gasglwyd yn ystod y cynllun peilot, a gadarnhaodd bod llai o bobl ifanc na'r disgwyl wedi manteisio ar FyNgherdynTeithio ac y bu llai o siwrneiau na'r disgwyl.

Mae hefyd yn adlewyrchu'r gwelliannau yn narpariaeth a galluogrwydd peiriannau tocynnau electronig sy'n gweithredu yn fflyd bysiau Cymru. Yn sgil y gwelliannau hyn, bu modd i Lywodraeth Cymru a chwmnïau bysiau gytuno y byddai hawliadau am gyllid digolledu yn seiliedig ar nifer wirioneddol y siwrneiau a gofnodwyd.

Ar gyfer marchnata'r cynllun yn ystod 2017-18, penderfynodd Ysgrifennydd y Cabinet ar y pryd mewn ymateb i feirniadaeth y Cydffederasiwn o'r ymdrechion marchnata hyd yna y dylid gwahodd y Cydffederasiwn ei hun (sy'n cynrychioli sefydliadau sy'n marchnata gwasanaethau bysiau i ddenu teithwyr) gael ei wahodd i gymryd cyfrifoldeb dros farchnata'r cynllun am y cyfnod rhwng 1 Ebrill 2017 i 31 Mawrth 2018 gan ddefnyddio cyllid gan Lywodraeth Cymru.

Trefnodd y swyddogion drafodaethau rhwng y Cydffederasiwn a Traveline Cymru ar gynnwys yr ymgyrch farchnata newydd, a chytunodd y Cydffederasiwn â'r swyddogion i weithio tuag at darged o ddyblu nifer deiliaid y cardiau a dyblu nifer y siwrneiau bob blwyddyn, ac ar y ffordd y byddai'r cyllid yn cael ei hawlio. Roedd y trefniant cytundebol ar gyfer marchnata a'r cynllun hyrwyddo a'r cynnwys rhwng y Cydffederasiwn a Traveline Cymru yn unig.

Yn ystod 2018-19, tra bod yr ymatebion i'r ymgynghoriad yn cael eu hystyried, dim ond lefel isel o weithgarwch marchnata a gynhaliwyd. Yn dilyn penderfyniad Ysgrifennydd y Cabinet i ehangu'r ystod oedran i gynnwys pobl ifanc 19, 20 a 21 oed, ac i'r gwaith marchnata gael ei wneud yn fewnol, cafodd ymgyrch hyrwyddo a chyfryngau cymdeithasol sylweddol ei datblygu i gyd-ddigwydd â lansio'r cynllun estynedig.

Efallai yr hoffai'r Pwyllgor nodi, ers i'r cynllun gael ei ehangu yn fwy diweddar i gynnwys pobl ifanc 19 - 21 oed ar 14 Chwefror 2019, roedd 1,554 o geisiadau i law erbyn 22 Ebrill 2019.

Mae Llywodraeth Cymru'n parhau i gydweithio'n agos â'r Cydffederasiwn a'n partneriaid mewn awdurdodau lleol i annog mwy o bobl ifanc i ddefnyddio bysiau ar gyfer mwy o'u siwrneiau. Mae'r trafodaethau i roi'r peilot ar waith, a'r gwersi a ddysgwyd ohono, wedi bod yn rhan o'r broses o sefydlu sail hirdymor deg i'r cynllun. Mae Llywodraeth Cymru wedi cyflawni cynllun poblogaidd, sy'n tyfu ac sy'n dangos manteision gweithio gyda'n partneriaid ac sy'n cydymffurfio â chanfyddiadau adroddiadau Swyddfa Archwilio Cymru a'r Gwasanaeth Archwilio Mewnol.